

GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A479 (CWMDU, TRETŴR A PHARC GLAN-WYSG, POWYS) (FFORDD GYFYNGEDIG, TERFYNAU CYFLYMDER 30 MYA, 40 MYA A 50 MYA) 2023

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn drwy arfer eu pwerau o dan adrannau 82(1) a (2), 83(1), 84(1)(a) a (2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, sy'n dod i rym ar 10 Awst 2023.

Yn rhinwedd dirymu Gorchymyn Cefnffordd yr A479 (Tretŵr a Chwm-du, Powys) (Terfyn Cyflymder 40 mya) 1996 (O.S. 1996/1574), mae'r Gorchymyn yn ailgyflwyno'r statws ffordd gyfyngedig drwy bentref Tretŵr ac yn dirymu'r terfyn cyflymder presennol o 40 mya. Mae hefyd yn cyflwyno terfyn cyflymder o 30 mya ym mhob pen o'r pentref lle nad oes statws ffordd gyfyngedig yn rhinwedd goleuadau stryd, yn cadw'r terfyn cyflymder o 40 mya drwy bentref Cwm-du (gyda disgrifiad diwygiedig yn y Gorchymyn i gyd-fynd â'r arwyddion presennol) ac yn cyflwyno terfyn cyflymder o 50 mya wrth ddynesu at bentref Tretŵr o gyfeiriad y de o'i chyffordd â'r A40 wrth Barc Glan-wysg.

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 10 Awst 2023 ymlaen, gellir edrych ar gopi o'r Hysbysiad hwn, y Gorchymyn a wnaed a'r plan, yn rhad ac am ddim, yn Llyfrgell Crughywel, Silver Street, Crughywel, Powys NP8 1BJ (gwiriwch yr oriau agor cyn ymweld), eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd> neu eu cael yn rhad ac am ddim oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ, gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1500780.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1500780.



J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

ATODLEN 1

Y darn hwnnw o'r gefnffordd yn Nhretŵr sy'n ymestyn o bwynt 65 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd sirol yr U0496 i gyfeiriad de-ddwyreiniol hyd at bwynt 7 metr i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd


THE A479 TRUNK ROAD (CWMDU, TRETOWER AND GLANUSK PARK, POWYS) (RESTRICTED ROAD, 30 MPH, 40 MPH AND 50 MPH SPEED LIMITS) ORDER 2023

The Welsh Ministers have made an Order in exercise of their powers under sections 82(1) and (2), 83(1), 84(1)(a) and (2) and 124 of, and paragraph 27 of Schedule 9 to, the Road Traffic Regulation Act 1984, which comes into force on 10 August 2023.

By virtue of the revocation of the A479 Trunk Road (Tretower and Cwmdu, Powys) (40 mph Speed Limit) Order 1996 (S.I. 1996/1574), the Order re-introduces the restricted road status though the village of Tretower and revokes the current 40 mph speed limit. It also introduces a 30 mph speed limit at either end of the village, where there is no restricted road status by virtue of street lighting, retaining the 40 mph speed limit through the village of Cwmdu (with an amended description within the Order to match the current signage) and introduces a 50 mph speed limit on the southern approach to the village of Tretower from its junction with the A40 at Glanusk Park.

During a period of 6 weeks from 10 August 2023, a copy of this Notice, the made Order and plan may be inspected, free of charge, at Crickhowell Library, Silver Street, Crickhowell, Powys NP8 1BJ (check opening times before visiting), viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders> or obtained free of charge from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ, quoting reference number qA1500780.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Transport, Orders Branch, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ quoting reference number qA1500780.



J SADDLER
Transport
Welsh Government

SCHEDULE 1

That length of the trunk road at Tretower that extends from a point 65 metres north-west of the centre point of its junction with the U0496 county road in a south-easterly direction to a point 7 metres north-west of the centre point of its junction with the U0496 county road.

That length of the trunk road at Tretower that extends

sirol yr U0496.

Y darn hwnnw o'r gefnffordd yn Nhretŵr sy'n ymestyn o bwynt 25 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd sirol yr C0115 i gyfeiriad de-ddwyreiniol hyd at bwynt 75 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd sirol yr U0491.

ATODLEN 2

Y darn hwnnw o'r gefnffordd yng Nghwm-du sy'n ymestyn o bwynt 155 o fetrau i'r de o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd sirol yr C112 i gyfeiriad gogleddol hyd at bwynt 135 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd sirol yr C112.

ATODLEN 3

Y darn hwnnw o'r gefnffordd i'r de-ddwyrain o Dretŵr sy'n ymestyn o bwynt 75 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd sirol yr U0491 i gyfeiriad de-ddwyreiniol i'w chyffordd â'r A40 ym Mharc Glan-wysg.

from a point 25 metres south-east of the centre point of its junction with the C0115 county road in a south-easterly direction to a point 75 metres south-east of the centre point of its junction with the U0491 county road.

SCHEDULE 2

That length of the trunk road at Cwmdu that extends from a point 600 metres south of the centre point of its junction with the C112 county road in a northerly direction to a point 135 metres north of the centre point of its junction with the C112 county road.

SCHEDULE 3

That length of the trunk road southeast of Tretower that extends from a point 75 metres south-east of the centre-point of its junction with the U0491 county road in a south-easterly direction to its junction with the A40 at Glanusk Park.

